LC324

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**DRAFFT** **DRAFT**

**Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb gan y Cyngor ynghylch asesu a rheoli ansawdd aer amgylchynol, a Chyfarwyddeb gan y Cyngor ynghylch gwerthoedd terfyn ar gyfer *sulphur dioxide*, *nitrogen dioxide* ac ocsidau *nitrogen*, mater gronynnol a phlwm ("llygrynnau perthnasol") mewn aer amgylchynol.

Ceir nodyn manwl yn y Nodyn Esboniadol

Gwnaed darpariaeth debyg ar gyfer Lloegr ar 25 Mehefin 2001 gyda dyddiad dod i rym o 19 Gorffennaf 2001. Yn ogystal, fodd bynnag, mae Rheoliad 10 o'r rheoliadau hyn yn gymwys i'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nodwyd y pryderon canlynol mewn perthynas â drafftio'r rheoliadau hyn.

**Rheoliad 2 - "parth"**

Diffinnir y term hwn drwy gyfeirio at fap "i'w gyhoddi gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 1 Awst 2001".

O gofio bod y rheoliadau wedi dod i rym ar 19 Gorffennaf 2001 bydd cyfnod o 14 diwrnod wedi mynd heibio pan nad oedd modd rhoi darpariaethau amrywiol y rheoliadau sy'n ymwneud â pharthau ar waith. Yn ogystal, daeth y rheoliadau i rym gan honni eu bod yn ymgorffori map nad oedd yn bodoli bryd hynny.

**Rheoliad 5(7)**

O dan Reoliad 5(1) mae’n ofynnol dosbarthu bob parth mewn perthynas â phob un o’r llygrynnau perthnasol.  O dan yr amgylchiadau hyn ni ddeellir effaith ychwanegol arfaethedig Rheoliad 5(7).

**Rheoliad 11(6)**

Mae hwn yn ei gwneud yn ofynnol trefnu bod y map o’r parthau “ac unrhyw ddiwygiad iddo ”ar gael i’r cyhoedd.  O gofio bod bwriad i’r map o’r parthau fod yn fap sydd i’w gyhoeddi ar ddyddiad penodol, mae’n anodd deall sut mae modd ei ddiwygio.  Yn wir, pe bai yna ddarpariaeth i ddiwygio’r map, byddai hyn yn mynd yn groes i’r egwyddor nad oes modd ymgorffori dogfen mewn offeryn statudol o dan fformwla sy’n honni bod modd ei hamrywio o dro i dro.

**Atodlenni 1 a 7**

Nid yw’n ymddangos bod y rheoliadau a enwir yn y penawdau yn gywir.  Ymddengys y dylent fod fel a ganlyn -

- Atodlen 1 - Rheoliadau 3(1), 8(2), 9(1) a (3) ac 11(4) a (5).
- Atodlen 7 - Rheoliad 9(4).

**Pwyntiau teipograffyddol**

Deellir bod y rheoliadau hyn wedi’u gwneud ar 17 Gorffennaf ond nid yw’r dyddiad wedi’i nodi ar y copi a gyflwynwyd i’r Pwyllgor.

Mae angen diwygio’r modd y cafodd Rheoliad 11(1) ei rifo yn y testun Cymraeg.

Yn nhestun Cymraeg Atodlen 6, Rhan IV, mae angen diwygio “fydd”.

**J H TURNBULL**
Cynghorydd Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfau

Cyf:  LAD 01-01-378

6 Awst 2001